chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



# Arsylwi ar Blant








**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Arsylwi ar Blant

**Cynulleidfa** Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar bwysigrwydd arsylwi. Dylai cyfleoedd i arsylwi ar blant fod yn rhan annatod o drefn feunyddiol ymarferwyr sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai arsylwi fod yn rhan o weithdrefnau cyffredinol y lleoliad/yr ysgol ar gyfer asesu ac nid cael ei gadw ar wahân.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cyf: AC/GM/0839
ISBN: 978 0 7504 4548 1
Ionawr
A-EAC-02-01-039/AB
© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


**Cefndir** 2

**Cyflwyniad** 4
  Astudiaeth achos: Siopa

**Diben arsylwi ar blant** 6

**Ar beth dylid arsylwi?** 7
  Astudiaeth achos: Y bêl goll
  Astudiaeth achos: Plentyn yn chwarae ar ei ben ei hun

**Dulliau arsylwi** 11
Sut dylai ymarferwyr arsylwi?
  Astudiaeth achos: Llun o bengwin

Pryd dylai ymarferwyr ymyrryd?
  Astudiaeth achos: Dydd a nos – Y sach sgleiniog

**Ffyrdd o gofnodi arsylwadau** 17

**Cwestiynau i'w hystyried wrth arsylwi ar blant** 19
Datblygiad personol
Datblygiad cymdeithasol
Lles/datblygiad emosiynol
Datblygiad gwybyddol
Datblygiad ieithyddol a sgiliau cyfathrebu
Datblygiad corfforol
  Echddygol bras
  Echddygol manwl

**Atodiad 1** 26
Y daflen arsylwi a ddefnyddiwyd yn ystod
gweithgaredd 'Dydd a Nos'

**Gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltiadau** 27

**Geirfa'r Cyfnod Sylfaen** 28

**Cydnabyddiaethau** 34

# Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau APADGOS.

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.



Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi asesu yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ar bwysigrwydd arsylwi a dylid ei defnyddio i gefnogi barn ar ddatblygiad a sgiliau plant. Dylai cyfleoedd i arsylwi ar blant fod yn rhan annatod o drefn feunyddiol ymarferwyr sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai arsylwi fod yn rhan o weithdrefnau cyffredinol y lleoliad/yr ysgol ar gyfer asesu ac nid cael ei gadw ar wahân.

# Cyflwyniad

**Mae arsylwi ar blant yn rhoi llawn cymaint o wybodaeth p'un ai y bydd yn digwydd yn yr awyr agored neu o dan do.**

Mae'n hanfodol bod gan ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant ddealltwriaeth o ddatblygiad plant ac anghenion plant. Drwy arsylwi ar blant yn ofalus er mwyn nodi eu cynnydd, y rhan y maen nhw'n ei chwarae a'u mwynhad, yn ogystal â chanolbwyntio ar gyrraedd canlyniadau sydd wedi'u pennu ymlaen llaw, dylai'r ymarferwyr allu cynllunio cwricwlwm mwy priodol sy'n ategu datblygiad plant yn ôl anghenion yr unigolyn.

Drwy arsylwi ar blant wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau, bydd ymarferwyr yn darganfod sut mae sgiliau'r plant yn datblygu a'r hyn y maen nhw'n gallu ei wneud. Bydd ymarferwyr hefyd yn gallu casglu gwybodaeth am yr hyn y mae'r plentyn yn ei wybod a'i ddeall, yn ogystal ag am eu hoffterau personol.

Mae'n bwysig nodi na fydd yna nod na rhesymeg a bennwyd ymlaen llaw bob tro wrth arsylwi (a dweud y gwir, mae llawer yn deillio o arsylwi). Gellir arsylwi ar blant yn ddyddiol wrth iddyn nhw ymgymryd â'u gweithgareddau. Mae arsylwi ar blant yn rhoi llawn cymaint o wybodaeth p'un ai y bydd yn digwydd yn yr awyr agored neu o dan do.

Nid oes angen cofnodi popeth a welir, ond mae'n bwysig defnyddio'r wybodaeth berthnasol a barn am ddatblygiad plant a'u cyflawniadau arwyddocaol i gynllunio at y dyfodol. Mae'r data a'r wybodaeth sy'n cael eu casglu wrth arsylwi ar blant yn bwysig i ddatblygu darlun cyflawn o'r plant.

Mae arsylwi ac asesu yn galluogi ymarferwyr i:

- adnabod y plentyn unigol ac amlygu cryfderau, diddordebau ac anghenion y plentyn hwnnw
- nodi cynllun ar gyfer cynnydd y plentyn
- amlygu datblygiad plant, eu cryfderau a'u galluoedd ar draws yr holl Feysydd Dysgu
- rhoi ymateb graddol a chymorth penodol i blant nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol ac a allai fod ar gontinwwm anghenion addysgol arbennig (Cod Ymarfer AAA Cymru)
- hysbysu plant o'u cyflawniadau a'r camau nesaf yn eu dysgu

- hysbysu staff, rhieni/gofalwyr o gyflawniadau'r plant a'r camau nesaf yn eu dysgu
- nodi, monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y cwricwlwm a ddarperir
- llywio pontio yn ystod y Cyfnod Sylfaen a rhwng y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut y bu modd i ddau fachgen atgyfnerthu ac adeiladu ar eu sgiliau presennol drwy weithgareddau a ddeilliodd o ddiddordeb cychwynnol a oedd ganddyn nhw mewn basged siopa a nodwyd wrth arsylwi arnyn nhw.**

## Siopa

Dangosodd dau fachgen, un yn y dosbarth meithrin a'r llall ym Mlwyddyn 1, ddiddordeb mewn siopa ar ôl dod o hyd i fasged siopa las yn y blwch teganau. Gyda'u cymorth, sefydlwyd siop mewn rhan o'r ystafell ddosbarth a fi oedd perchennog y siop. Mae gan y ddau fachgen anghenion ychwanegol ac mae angen ymarferwyr arnyn nhw i arwain gweithgareddau chwarae. Fe wnaethon nhw dreulio cryn nifer o sesiynau yn y siop a chrëwyd diddordeb ymhlith y disgyblion eraill yn y dosbarth. Mae gan y ddau fachgen anawsterau lleferydd ac iaith a thrwy'r gweithgaredd hwn, roedden nhw'n gallu datblygu ac ymarfer eu sgiliau gofyn mewn ffordd oedd o ddiddordeb ac yn ystyrlon iddyn nhw.

Mae'r ddau ar y lefel 'dau air gwybodaeth' ac roedden nhw'n gallu gofyn i mi am wahanol eitemau o'r siop, er enghraifft 'Wyau plis'. Roedd yn bleser arsylwi ar eu hiaith a'u sgiliau chwarae rôl yn datblygu a chafodd y tri ohonom hwyl yn ystod y sesiynau hyn.

Fel gweithgaredd dilynol, fe es i â'r bechgyn i archfarchnad leol i brynu llysiau i'w coginio ac roedden nhw'n gallu defnyddio arian go iawn mewn sefyllfa go iawn. Ymhlith y targedau unigol a gyflawnwyd gan y ddau fachgen roedd: defnyddio dau air i ofyn am nwyddau, cymryd eu tro, aros, defnyddio arian, enwi nwyddau a chydweithio.

# Diben arsylwi ar blant

Drwy arsylwi a gwrando, mae ymarferwyr yn gallu casglu tystiolaeth cyn i blant ddysgu sgil ac wedyn, neu dros gyfnod o amser. Mae hyn yn galluogi ymarferwyr i asesu faint o gynnydd mae'r plant wedi'i wneud ac a oes angen cyfleoedd pellach i atgyfnerthu'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu.

Drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu, gall ymarferwyr benderfynu ar ddewisiadau/arddulliau dysgu'r plant unigol. Bydd yr ymarferwyr hefyd yn cael gwybodaeth am ba mor llwyddiannus mae gweithgareddau a chyfleoedd penodol wedi bod.

Prif ddiben arsylwi ar blant yw penderfynu ble maen nhw ar y continwwm dysgu er mwyn eu symud yn eu blaen, ac er mwyn nodi unrhyw anawsterau, camddehongliadau neu gamddealltwriaethau.



# Ar beth dylid arsylwi?

**Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gwrando ar blant yn ogystal ag edrych arnyn nhw wrth arsylwi, gan fod modd iddyn nhw ddysgu llawer iawn am yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu ac yn ei ddeall drwy wrando ar eu lleferydd.**

Dylai arsylwi fod yn rhan allweddol o arferion beunyddiol ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant. Wrth arsylwi ar blant, dylai ymarferwyr goladu gwybodaeth am eu datblygiad a'u cyflawniadau a thrafod y rhain gyda'u cydweithwyr, er mwyn llywio'r cynlluniau at y dyfodol a'r asesiadau o gyflawniadau'r plant.

Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gwrando ar blant yn ogystal ag edrych arnyn nhw wrth arsylwi, gan fod modd iddyn nhw ddysgu llawer iawn am yr hyn mae'r plant yn ei ddysgu ac yn ei ddeall drwy wrando ar eu lleferydd. Dylid arsylwi ar blant ar draws pob un o'r saith Maes Dysgu, sef:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Datblygu'r Gymraeg
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol.

Dylai gwybodaeth gael ei chasglu am gynnydd datblygiadol a chyflawniadau/cyraeddiadau'r plant drwy drafod â nhw yn ogystal ag arsylwi ar wahanol sefyllfaoedd a chyd-destunau yn y lleoliad/ysgol, fel:

- plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain
- plant yn chwarae wrth ochr plant ac ymarferwyr
- plant yn chwarae ac yn rhyngweithio â'u cyfoedion mewn parau ac mewn grwpiau bach
- rhyngweithiadau plant ag ymarferwyr
- rhyngweithiadau plant â'u rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr
- rhyngweithiadau plant â'r amgylchedd (o dan do ac yn yr awyr agored) a gydag adnoddau naturiol ac adnoddau wedi'u cynhyrchu'n fasnachol
- yn y gwahanol fathau o chwarae, strwythuredig a rhydd/digymell; er enghraifft:
  - dychmygol/cogio
  - byd bach
  - adeiladu
  - creadigol
  - corfforol

- ar wahanol adegau o’r dydd
- ar wahanol ddyddiau’r wythnos.

Bydd arsylwi ar blant wrth iddyn nhw gwblhau tasgau sydd wedi’u cynllunio a thasgau sydd wedi’u dewis gan y plant eu hunain yn rhoi i’r ymarferwyr a’r rhieni/gofalwyr ddarlun manwl o’r canlynol:

- datblygiad sgiliau’r plant
- yr hyn mae’r plant yn ei ddeall
- ymrwymiad y plant i’w dysgu
- y dewisiadau personol mae’r plant wedi’u gwneud
- diddordebau’r plant a lefelau canolbwyntio
- cydberthnasau’r plant â’u cyfoedion ac oedolion
- patrymau ymddygiad y plant, (meysydd sydd angen mwy o sylw, fel clyw, golwg, cyfnod eu canolbwyntio).

Wrth arsylwi ar blant, gall ymarferwyr hefyd ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain a fydd yn arwain at werthusiad o’r ddarpariaeth, anghenion hyfforddi’r ymarferwyr yn y dyfodol a’r gwahanol ddulliau dysgu ac addysgu sy’n cael eu defnyddio. Gallai’r cwestiynau allweddol gynnwys y canlynol.

- Ydy’r gweithgareddau’n rhy hawdd neu’n rhy anodd?
- Sut mae’r plant yn defnyddio’r adnoddau?
- Oes unrhyw beth ar goll sydd ei angen ar y plant?
- Oes digon o amser/lle yn cael ei ddarparu ar gyfer y profiad a’r atgyfnerthu?
- Ydy’r plant wedi’u cynnwys yn llawn yn y gweithgaredd – os nad ydyn nhw, pam?
- Pa mor annibynnol yw’r plant yn eu dysgu?
- Ydy’r plant yn gallu gweithio/chwarae wrth ochr plant eraill/mewn cydweithrediad â nhw?
- Oes angen ymyrraeth ymarferwyr ar y plant?
- Oes cyfle wedi bod ar gyfer meddwl parhaus?
- Beth mae angen ei wneud er mwyn symud y dysgu yn ei flaen?
- Oes cydbwysedd o weithgareddau dros gyfnod (o dan do/yn yr awyr agored, unigol/mewn grŵp, ac ati)?

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut yr arsylwodd athrawes ar grŵp o blant meithrin oedd yn annibynnol yn eu dysgu drwy weithio wrth ochr/mewn cydweithrediad â'i gilydd a thrwy addasu'r defnydd o'u hadnoddau.**

## Y bêl goll

Roedd plentyn yn chwarae gyda bat pren a phêl fach pan roliodd y bêl i ochr arall y rheiliau. Ceisiodd ei chyrraedd drwy'r rheiliau, ond nid oedd ei braich yn ddigon hir. Cynigiodd plentyn arall ddefnyddio'i goes, a oedd yn hirach na'i braich ond nad oedd yn ddigon hir ychwaith. Meddyliodd plentyn arall y gellid taflu'r gadwyn o'r glwyd drosti. Gwnaed hyn heb lwyddiant. Roedd y gadwyn yn ddigon hir ond nid oedd yn ddigon anhyblyg. Defnyddiwyd amrywiaeth o eitemau, gan gynnwys pensil, a hynny'n ofer. Yn y pen draw, cododd y plentyn ei bat pren, gwelodd y byddai'n mynd drwy'r rheiliau, a'i fod yn ddigon hir i estyn am y bêl. Roedd yn amlwg wedi'i phlesio â'r canlyniad.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y cynorthwywyd plentyn Blwyddyn 2 i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac i ryngweithio mwy â chyfoedion.**



## Plentyn yn chwarae ar ei ben ei hun

Roedd Lewis yn cael anawsterau wrth chwarae gyda'i gyfoedion a chyd-dynnu â nhw. Pan oedd yn chwarae gydag eraill byddai'n aml yn gwrthdaro â nhw ac yn aml byddai'n eu gadael i chwarae ar ei ben ei hun.

Roedd Lewis yn arbennig o hoff o chwarae byd bach. Mae gennym adnodd sy'n cynnwys amrywiaeth o flociau ac elfennau sy'n gwneud tref gron pan fyddwn yn eu rhoi at ei gilydd.

Gellir hefyd pentyrru'r blociau i wneud adeiladau. Byddai Lewis yn treulio amser yn gosod y dref at ei gilydd yn ofalus ac yna'n adeiladu un adeilad mor uchel â phosibl. Sicrhaodd fod yr adeilad/blociau'n sefydlog ac roedd am gael ei ganmol a chydnabyddiaeth bob amser pan fyddai'r 'dasg' wedi'i chwblhau.

"Edrychwch ar beth wnes i."
"Edrychwch pa mor uchel yw hwn, peidiwch â'i fwrw i lawr."

Yna gofynnodd Lewis am gael tynnu ffotograff ac argraffwyd copi iddo.

Ar ôl arsylwi ar Lewis yn dychwelyd i'r gweithgaredd hwn yn eithaf aml, fe wnaethon ni sylweddoli bod angen i ni ei annog i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau eraill a rhoi'r cyfleoedd iddo chwarae gyda'r plant eraill. Bu hyn yn llwyddiannus iawn. Mae Lewis bellach yn gallu chwarae'n fodlon gyda'i gyfoedion ac nid oes angen y diogelwch o ddychwelyd i chwarae byd bach arno mwyach.

# Dulliau arsylwi

**Pan fyddan nhw wedi ymgolli yn eu gwaith, mae plant yn canolbwyntio'n llwyr ar y gweithgaredd ac ymddengys nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.**

Mae llawer o ffyrdd gwahanol o arsylwi ar blant y gallai ymarferwyr eu defnyddio i ategu eu dyfarniadau:

- arsylwi cynlluniedig am gyfnod penodol o amser a thros gyfnod o amser
- arsylwi cynlluniedig sy'n asesu cynnydd datblygiadol (canolbwyntio'n benodol ar ddeilliannau neu brosesau dysgu)
- arsylwi cynlluniedig ar blant sydd wedi'u targedu
- arsylwi digymell ar rywbeth sy'n digwydd yn ystod trefn y lleoliad/ysgol.

Cyn ymgymryd ag arsylwi cynlluniedig, dylid ystyried pa ddull arsylwi fydd y gorau i roi'r wybodaeth/asesiad penodol y mae eu hangen. Gallai'r wybodaeth hon ymwneud, er enghraifft, ag ymddygiad y plant, ac â'u datblygiad emosiynol yn ogystal â'u datblygiad deallusol.

Dylai arsylwi cynlluniedig ganolbwyntio ar rywbeth penodol a dylai'r ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r hyn maen nhw'n chwilio amdano, ar bwy y dylen nhw edrych a phryd a ble mae'r arsylwi cynlluniedig yn mynd i ddigwydd.

## Sut dylai ymarferwyr arsylwi?

Os gwneir gwaith arsylwi yn aml a hynny fel rhan o sesiwn/diwrnod y plant, yna bydd y plant yn dod i arfer â chael ymarferwyr yn arsylwi arnyn nhw. Byddan nhw felly'n parhau â'u chwarae/gweithgareddau ac o ganlyniad bydd llai o darfu ar yr ymarferwyr. Pan fyddan nhw wedi ymgolli yn eu gwaith, mae plant yn canolbwyntio'n llwyr ar y gweithgaredd ac ymddengys nad ydyn nhw'n ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

Gall ymarferwyr arsylwi ar blant drwy gymryd rhan weithgar yng ngweithgaredd y plant. Yn ystod y cyfnod hwn, gall ymarferwyr gasglu gwybodaeth am yr hyn y mae'r plant yn gallu ei wneud a pha sgiliau y mae angen iddyn nhw eu datblygu er mwyn symud eu dysgu yn ei flaen.

**Mae ansawdd y cwestiynau yn hollbwysig wrth helpu'r plant i feddwl a dysgu'n annibynnol, ac i ymestyn eu dysgu.**

Mae ymarferwyr hefyd yn gallu arsylwi drwy sefyll neu eistedd yn ymyl y plant dan sylw ac arsylwi ar yr hyn maen nhw'n ei wneud, y dewisiadau maen nhw'n eu gwneud ac a ydyn nhw'n gweithio'n unigol neu'n cydweithredu. Gall ymarferwyr arsylwi hefyd ar ryngweithiadau'r plant â'r amgylchedd dysgu.

Mae nifer o ymchwilwyr wedi datblygu dulliau ar gyfer arsylwi ar blant a'u hasesu ac wedyn defnyddio'r data i ategu cynlluniau at y dyfodol i'r plentyn unigol, y dosbarth neu'r grŵp. (Gweler yr adran 'Gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltiadau' i gael manylion am raglenni asesu sydd ar gael ar gyfer arsylwi ar blant.)

Wrth arsylwi ar blant, mae'n bwysig gwybod pryd mae'n briodol ymyrryd er mwyn siarad â'r plant neu i ofyn cwestiynau, a phryd mae'n briodol i sefyll yn ôl a chaniatáu i'r plant barhau â'u gweithgaredd heb ymyrryd.

Mae ansawdd y cwestiynau yn hollbwysig wrth helpu'r plant i feddwl a dysgu'n annibynnol, ac i ymestyn eu dysgu.

Y cyfan y bydd rhai cwestiynau'n ei ganiatáu yw i'r plant ddwyn gwybodaeth i gof neu ddangos eu bod yn deall. Bydd cwestiynau mwy treiddgar ac ymestynnol yn caniatáu i'r plant resymu, gwerthuso a dyfeisio eu hatebion eu hunain i'r cwestiynau.

Dyma'r ddau brif fath o gwestiynau:

- **cwestiynau caeëdig**, sy'n dueddol o fod â ffocws penodol ac fel arfer yn caniatáu un ateb cywir yn unig. Mae cwestiynau caeëdig yn ddefnyddiol wrth:
  – ganfod beth mae'r plant wedi'i ddeall; er enghraifft, mewn stori
  – annog plant llai hyderus i roi atebion byr
  – gweithredu fel ysgogiad ar gyfer cyflwyno sgwrs ymestynnol.

- **cwestiynau agored**, sy'n dueddol o fod yn fyr (dim ond un gair ar adegau, er enghraifft 'pwy?', 'pryd?', 'pam?') ac yn rhoi'r cyfle i blant feddwl a thrafod nifer o bosibiliadau ac atebion a ffyrdd ymlaen.

Gall hyd yn oed yr ymarferwyr mwyaf profiadol gael atebion annisgwyl iawn i'w cwestiynau, fel y gwelir yn yr astudiaeth achos ganlynol.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos sut y cymerodd Daniel, tair oed, ofal mawr wrth baentio llun o bengwin mewn dŵr dwfn. Roeddwn wedi arsylwi ar Daniel yn paentio'i lun ac roedd ei fanylder a'i gywirdeb o ddiddordeb mawr.**

## Llun o bengwin

Roedd Daniel wedi dod â thegan i'r ysgol ar ffurf pengwin. Dywedodd wrthon ni fod angen dŵr dwfn ar Percy i nofio. Meddyliais y byddai'n cynllunio i ddefnyddio'r hambwrdd dŵr ond pan ddaeth yn amser cynllunio, dywedodd wrth y grŵp ei fod yn mynd i'r ardal gelf i baentio dŵr dwfn.

Dewisodd Daniel ddarn o garden las a chreodd effaith wych gyda'r paent. Edrychodd yn y droriau yn yr ardal gelf ac roedd wrth ei fodd pan ddaeth o hyd i lun o bengwin a gludiodd y llun ar y dŵr. Yna torrodd Daniel wellt celf i hydoedd penodol yn ofalus a rhoi glud ar eu hyd a'u gwasgu ar ei lun. Wedi'i blesio, rhoddodd ei lun i sychu.

Yn ystod amser cofio/adolygu daeth Daniel a'i lun i'w ddangos i ni. "Dyma'r dŵr dwfn. Mae Percy ar y gwaelod o dan y dŵr, edrychwch." "A beth yw'r rhain?" gofynnais i gan gyfeirio at y gwellt.

"Gwellt ydyn nhw," meddai Daniel, gan edrych arna i fel y dylwn fod wedi gwybod hynny eisoes.



## Pryd dylai ymarferwyr ymyrryd?

Drwy arsylwi ar blant a deall eu datblygiad mae ymarferwyr yn meithrin y sgil o wybod pryd i ymyrryd a phryd i beidio ag ymyrryd. Y rhesymau amlycaf dros ymyrryd yw fel a ganlyn:

- mae angen cymorth ar blant a/neu maen nhw'n cael anhawster gyda thasg a gallen nhw fynd yn rhwystredig pe na bai cymorth yn cael ei roi
- nid yw plant yn symud ymlaen yn eu dysgu ac mae angen iddyn nhw symud ymlaen i'r cyfnod nesaf ar y continwwm dysgu
- mae plant mewn perygl gan y gallai fod yna fater iechyd a diogelwch
- mae plant yn anghytuno â phlant eraill ac yn methu â chael ateb cadarnhaol
- mae plant yn ymosodol gyda'r adnoddau, neu pan fydd angen ychwanegu neu dynnu adnoddau o sefyllfa chwarae er mwyn ymestyn y chwarae/dysgu
- mae plant am eich cynnwys chi yn y gweithgaredd.

**Mae dyfyniadau o destun o'r astudiaeth achos hon wedi'u cynnwys yn y ddogfen ganllaw *Chwarae/Dysgu Gweithredol – Trosolwg ar gyfer Plant 3 i 7 oed*. Mae'r darn o destun yma'n disgrifio sut yr ymgorfforodd yr athro dosbarth strategaeth ymyrryd gan ganolbwyntio ar ddau fachgen mewn gweithgaredd dosbarth.**

## Dydd a Nos – Y sach sgleiniog

Dechreuodd y gweithgaredd o dan do. Roedd y sach eisoes wedi'i rhoi ar gadair yr athro pan ddaethom i mewn i gofrestru. Roedd y plant wedi'u cyffroi'n fawr gan feddwl bod anrheg wedi'i gadael iddyn nhw. Wnes i esgus nad oeddwn yn gwybod beth oedd y tu mewn. Ysgogodd hyn sgwrs ar unwaith ynglŷn â beth oeddwn ni'n meddwl oedd yn y sach. Allen ni ddyfalu drwy edrych ar y tu allan i'r sach? Pa gliwiau oedd o ran cynnwys y sach? Caniatawyd i'r plant deimlo'r bag a cheisio dyfalu'r eitemau y tu mewn.

Ar yr adeg hon gofynnodd sawl plentyn i mi a allen ni fynd â'r bag y tu allan i'w agor. Drwy lwc, roedd yn ddiwrnod heulog. Rhoddais ddarn mawr o bapur arian ar yr iard chwarae. Eisteddodd yr holl blant o'i amgylch. Gan fod y plant eisoes yn gyfarwydd ag amser cylch, fe wnaethon ni gytuno i basio'r bag o amgylch y cylch a chaniatáu i bob plentyn dynnu rhywbeth allan ohono i bawb edrych arno. Y tu mewn i'r sach roedd gwahanol ffabrigau sgleiniog o wahanol hyd, ffyn hud disglair, tiaras plastig, cytlas, car arian, brwsh gwallt sgleiniog, blwch sgleiniog yn cynnwys perlau arian, brediau arian, clychau arian a drych. Hefyd yn y bag roedd rhai cardiau geiriau: 'sgleiniog', 'disglair', 'disgleirio', 'tywynnu', 'pefrio', 'pefriog', ac 'arian'.

Cymerodd y plant eu tro i dynnu eitem neu ffabrig o'r bag ac edrychodd pob un ohonon ni ar bob eitem yn ei thro. Gwisgwyd y rhan fwyaf o'r defnydd ar eu pennau, o amgylch eu hysgwyddau, neu'u chwifio yn yr awyr. Gwisgwyd yr hetiau a'r tiaras. Chwifiwyd ffyn hud! "Edrychwch beth sydd gen i!" "Rwyf wedi dod o hyd i drysor!" Daeth y blwch arian yn gist trysor. "Dwi'n dywysoges!" "Dwi'n fôr-leidr!"

Daethpwyd o hyd i'r cardiau geiriau yn y pen draw a gwnaeth pob un ohonom ymdrech i ddarllen y geiriau a'u gosod wrth ymyl eitem yr oedd yn ei disgrifio. Arweiniodd plant Blwyddyn 2 y rhan hon o'r gweithgaredd.

Yna caniatawyd i'r plant chwarae â'r eitemau'n rhydd. Rhoddodd hyn y cyfle i mi arsylwi ar ddau gefnder yn chwarae. Roedd y ddau fachgen yma'n aml yn ymosodol yn eu cydberthnasau

**Roeddwn i'n gobeithio y byddai'r gweithgaredd gwisgo dillad chwarae yn galluogi'r bechgyn i ddangos agwedd ar eu cymeriadau nad oedd wedi'i gweld yn yr ysgol o'r blaen.**

â phlant eraill ac fel arfer roedd yn well ganddyn nhw ddatrys camddealltwriaeth â phwniad neu gic, yn hytrach na thrafodaeth. Roedd eu nain wedi dweud wrthyf yn flaenorol nad oedd y bechgyn yn hoffi gwisgo dillad chwarae, ac eithrio fel 'Power Ranger'.

Roedd y bechgyn yn ymwybodol iawn o'u gwrywdod ac anaml iawn y byddan nhw'n dangos unrhyw deimladau tuag at bobl eraill. Roedd yn dod yn fwyfwy amlwg bod angen rhyw fath o ymyriad er mwyn addasu ymddygiad y bechgyn. Roeddwn i'n gobeithio y byddai'r gweithgaredd gwisgo dillad chwarae yn galluogi'r bechgyn i ddangos agwedd ar eu cymeriadau nad oedd wedi'i gweld yn yr ysgol o'r blaen.

I ddechrau, roedden nhw'n anfodlon i'r defnydd gael ei wisgo amdanyn nhw, ond, gydag anogaeth gan eu cyfoedion (nid ymarferwyr yn y sefyllfa hon) gwelodd y bechgyn o'r diwedd nad oedd neb yn chwerthin am eu pennau. Erbyn diwedd y sesiwn roedd y bechgyn yn gwisgo'r 'clogynnau' yn ogystal â thiara yr un, maneg binc sgleiniog yr un ac yn gafael mewn ffon hyd! Roedden nhw'n rhedeg o amgylch yr iard chwarae'n hudo'i gilydd.

Yn fy marn i, roedd hyn yn gam mawr ymlaen yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Am y tro cyntaf roedd y bechgyn yn gallu ymuno mewn gweithgaredd chwarae rôl nad oedd yn cynnwys ymddygiad ymosodol tuag at blant eraill. Teimlwn hefyd nad oedd y plant yn teimlo'u bod yn cael eu 'gwylio' gan unrhyw un gan fod ganddyn nhw fwy o le yn yr awyr agored. Ar ddiwedd y gweithgaredd, roedd pob aelod o staff oedd yn rhan o'r gweithgaredd yn teimlo bod y ffaith bod ganddyn nhw fwy o le wedi helpu'r bechgyn hyn, yn arbennig.

# Ffyrdd o gofnodi arsylwadau

Gall fod gan y lleoliadau/ysgolion fformatau penodedig ar gyfer cofnodi cyflawniadau plant a'u cynnydd datblygiadol. Mae'r canlynol yn sampl o'r gwahanol ffyrdd y gallai lleoliad/ysgol ddymuno'u defnyddio i gofnodi eu harsylwadau cychwynnol a'u harsylwadau parhaus am gyflawniadau plant a'u cynnydd datblygiadol.

**Llyfrau nodiadau** Yn gallu cael eu gosod yn strategol mewn lleoliad/ystafell ddosbarth a gall pob ymarferydd sy'n gweithio gyda'r plant ddefnyddio'r llyfrau nodiadau hyn i ysgrifennu/cofnodi eu harsylwadau am gyraeddiadau arwyddocaol y plant a/neu ddigwyddiadau pwysig a allai fod wedi digwydd.

**Dyddiaduron** Yn gallu cael eu defnyddio bob dydd ac yn gallu cofnodi ymatebion y plant a'u cynnydd datblygiadol, yn unigol ac mewn grwpiau.

**Nodiadau gludiog** Yn gallu cael eu gosod mewn nifer o fannau o amgylch y lleoliad/ystafell ddosbarth i gael eu gweld yn hawdd. Ar ôl cael eu cwblhau, dylen nhw gael eu gosod mewn lle diogel. Maen nhw'n cael eu defnyddio mewn ffordd debyg i lyfrau nodiadau.

**Cardiau mynegai** Yn gallu cael eu defnyddio i gofnodi cynnydd datblygiadol a chyflawniadau unigol y plant.

**Labeli gludiog** Yn cael eu defnyddio yn yr un ffordd â chardiau mynegai, ond yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i gofnodion y plant.

**Dalen gofnodi** Dalenni cofnodi wedi'u paratoi ymlaen llaw ag adrannau penodol ar gyfer cofnodi.

**Technoleg** Gall ffotograffau digidol a chyffredin, tapiau fideo a thapiau sain i gyd gael eu defnyddio i gofnodi cyflawniadau a chynnydd plant.

Dylai'r wybodaeth sydd wedi'i choladu gael ei defnyddio i lywio cynlluniau at y dyfodol ac i roi gwybod i rieni/gofalwyr am gynnydd y plant. Bydd angen rhywfaint o wybodaeth yn y tymor byr tra bydd angen cadw rhywfaint at y tymor hir. Mae'n bwysig na fydd unrhyw fath o gofnodi yn faich ar y staff a bod y gwaith papur yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl.

Mater i'r lleoliad/ysgol benderfynu arno yw'r math o gofnodion i'w cadw a'u hamrywiaeth i helpu ymarferwyr o ran eu gwaith asesu. Nid oes angen trefniadau astrus i gofnodi a chadw tystiolaeth o asesiadau at ddibenion asesu'r Cyfnod Sylfaen nac i fodloni gofynion arolygu Estyn.



# Cwestiynau i'w hystyried wrth arsylwi ar blant

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar enghreifftiau o gwestiynau a sbardunau y gallai ymarferwyr ofyn iddyn nhw eu hunain wrth arsylwi ar ddatblygiad sgiliau plant yn y meysydd canlynol:

- datblygiad personol
- datblygiad cymdeithasol
- lles/datblygiad emosiynol
- datblygiad gwybyddol
- datblygiad ieithyddol a sgiliau cyfathrebu
- datblygiad corfforol.

## Datblygiad personol

**Ydyn nhw'n trefnu eu hunain wrth chwarae neu wrth gwblhau tasgau penodol?**

- Sut mae'r plant yn ymateb i fod ar wahân i'w teulu? Os yw'n anodd iddyn nhw, pa mor hir mae'n ei gymryd iddyn nhw ymdawelu a sut mae'r plant yn cael eu cysuro?
- Pa mor abl yw'r plant wrth wisgo/dadwisgo? Oes angen cymorth arnyn nhw?
- Ydy'r plant yn gallu bwydo'u hunain? Sut arferion bwyta sydd ganddyn nhw?
- Ydy'r plant yn dangos ymwybyddiaeth o hylendid personol? Sut mae'r plant yn datblygu?
- Sut mae'r plant yn ymateb i'r amgylchedd – ydyn nhw'n dangos parch, ydyn nhw'n rheoli eu dewisiadau eu hunain? Ydyn nhw'n defnyddio adnoddau'n adeiladol, gyda gofal?
- Ydyn nhw'n annibynnol o ran nôl adnoddau priodol i gwblhau tasg a'u rhoi i gadw wedyn?
- Ydyn nhw'n gallu datrys anghydfodau â'u cyfoedion heb i oedolyn ymyrryd?
- Ydyn nhw'n trefnu eu hunain wrth chwarae neu wrth gwblhau tasgau penodol?
- I ba raddau mae'r plant yn ymwybodol o'r hyn maen nhw'n dda yn ei wneud, ac i ba raddau mae nhw'n deall sut y gallen nhw wella eu dysgu ac yn defnyddio adborth i wella eu gwaith?

- Ydy'r plant yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hwy o amser pan maen nhw'n cael eu cynnwys mewn tasgau priodol ac ydyn nhw'n gallu gwerthfawrogi eu dysgu, eu llwyddiant a'u cyflawniadau nhw eu hunain a dysgu, llwyddiant a chyflawniadau pobl eraill?



## Datblygiad cymdeithasol

**Ydyn nhw'n gallu meithrin cydberthnasau ag eraill? Pa mor hyderus ydyn nhw i gydweithredu?**

- I ba raddau maen nhw'n deall y gwahaniaeth rhwng da a drwg? Ydyn nhw'n cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain?
- Sut mae'r plant yn rhyngweithio â'u cyfoedion a gydag ymarferwyr? Ydyn nhw'n cyfathrebu? Ydyn nhw'n dechrau sgwrs/chwarae? Ydyn nhw'n helpu eraill?
- Ydyn nhw'n gallu meithrin cydberthnasau ag eraill? Pa mor hyderus ydyn nhw i gydweithredu?
- Ydyn nhw'n ymwybodol o'i gilydd, yn parchu ei gilydd ac yn derbyn tebygrwydd/gwahaniaethau unigolion?
- Ydy'r plant wedi datblygu ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a chrefyddau? Ydyn nhw'n ymwybodol o wahanol anghenion a safbwyntiau pobl eraill yn eu diwylliant a'u crefydd eu hunain ac mewn diwylliannau a chrefyddau eraill?
- Oes gan y plant ddealltwriaeth o amrywiaeth y rolau sy'n cael eu chwarae gan bobl mewn gwahanol grwpiau/cymunedau?
- Ydy'r plant yn dangos dealltwriaeth ac empathi at farn a chredoau plant eraill? Ydyn nhw'n gallu trafod materion cymdeithasol mewn ffordd briodol?
- Ydy'r plant yn dangos parch a gofal at fyd natur? Sut maen nhw'n trin planhigion/anifeiliaid, ac ati?

## Lles/datblygiad emosiynol

**Ydy'r plant yn dewis opsiynau iach fel byrbryd/cinio yn annibynnol?**

- Ydy'r plant yn adnabod, yn mynegi ac yn trafod amrediad o emosiynau?
- Ydy lles y plant yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar eu dysgu?
- Ydy'r plant yn ymwybodol o'u teimladau eu hunain ac ydyn nhw'n gallu eu mynegi mewn ffordd briodol?
- Ydy'r plant yn digon hyderus i droi at ymarferwyr i ofyn cwestiynau?
- Sut mae'r plant yn ymateb i deimladau ac emosiynau pobl eraill?
- Pa mor dda yw'r plant o ran datrys eu hanghydfodau emosiynol, ac ati?
- Ydy'r plant yn deall y gydberthynas rhwng teimladau a gweithredoedd ac yn deall bod gan bobl eraill deimladau?
- Ydy'r plant yn dangos gofal, parch ac anwyldeb at blant eraill, ymarferwyr a'u hamgylchedd?
- Pa mor dda mae'r plant yn ymateb i siom? Ydyn nhw'n gallu newid i atebion gwahanol?
- Sut mae'r plant yn cydberthnasu â chyfoedion/ymarferwyr (gwahanol bobl)?
- Ydy'r plant yn dewis opsiynau iach fel byrbryd/cinio yn annibynnol?
- Ydy'r plant wedi dechrau deall effaith bwydydd iach, ymarfer corff a hylendid ar eu cyrff?
- Ydyn nhw'n ymwybodol o beryglon yn y cartref ac yn yr amgylchedd tu allan?
- Ydyn nhw'n ymwybodol y gellir cymryd rhai meddyginiaethau er mwyn iddyn nhw deimlo'n well a bod rhai cyffuriau'n beryglus?

## Datblygiad gwybyddol

**Pa mor ddatblygedig yw eu syniad o amser?**

- Ydy'r plant yn meddwl yn annibynnol? Sut maen nhw'n mynd ati i ddatrys problemau, dewis gweithgareddau ac adnoddau? Pa gymorth sydd ei angen arnyn nhw?
- Pa mor ddatblygedig yw sgiliau cofio'r plant? Ydyn nhw'n gallu dwyn i gof? Faint o brocio ac ailadrodd sydd ei hangen?
- Ydy'r plant yn dangos diddordeb mewn deunyddiau/yn yr amgylchedd? Ydyn nhw'n mwynhau'r her o arbrofi gyda deunyddiau newydd? Sut maen nhw'n ymateb iddyn nhw?
- Pa mor dda y mae'r plant yn cyfateb, yn trefnu ac yn dosbarthu gwrthrychau/digwyddiadau, ac ati?
- Pa mor abl yw'r plant o ran dilyniannu a rhoi trefn? Allan nhw ymestyn trefn digwyddiadau mewn ffordd resymegol? Pa mor soffistigedig yw'r sgiliau hyn?
- I ba raddau mae'r plant yn cymryd rhan yn eu dysgu? Ydyn nhw'n dangos bod ganddyn nhw hoff arddull ddysgu? Pa un?
- Ydy eu sgiliau meddwl yn datblygu? Ydyn nhw'n dechrau meddwl yn rhesymegol?
- Sut maen nhw'n mynd ati i ddatrys problemau? Ydyn nhw'n gallu cyfleu/trafod eu hatebion?
- Ydyn nhw'n gallu gwahaniaethu rhwng gwir a chogio/smalio?
- Pa mor ddatblygedig yw eu syniad o amser?
- Ydy'r plant yn gallu trafod a dweud yr hyn maen nhw wedi'i ddarganfod o'u gwaith? Ydyn nhw'n gallu ei ymestyn ymhellach? Sut?
- Ydyn nhw'n gallu trosglwyddo'u dysgu i sefyllfaoedd newydd? Pa mor hyderus ydyn nhw wrth wneud hyn?

## Datblygiad ieithyddol a sgiliau cyfathrebu

**Ydy'r plant yn ymwybodol o ieithoedd eraill? Sut maen nhw'n ymateb iddyn nhw?**

- Sut mae'r plant yn ymateb i storïau, rhigymau, ac ati ac yn dangos eu bod yn eu deall?
- Ydy'r plant yn dilyn cyfarwyddiadau? Allan nhw ymdopi â chyfarwyddiadau manwl?
- Sut mae'r plant yn mynegi eu syniadau, eu hanghenion a'u teimladau?
- Pa mor dda mae syniadau'r plant yn cael eu cyfleu – ydy e'n hawdd eu deall? Pa mor hyderus yw'r plant wrth gyfathrebu?
- Pa mor rhugl yw'r plant wrth siarad, a pha mor effeithiol yw'r plant wrth gyfathrebu â'u cyfoedion a gydag ymarferwyr?
- Ydy'r plant yn defnyddio ystumiau'r wyneb a'r corff i fynegi anghenion, ac ati? Os felly, pa mor aml a pha fath?
- Ydy'r plant yn ymateb i ystumiau wyneb/corff pobl eraill?
- Ydy'r plant yn ymgorffori manylion perthnasol mewn esboniadau, disgrifiadau a naratifau, ac yn gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n hanfodol a'r hyn sy'n llai pwysig?
- Ydy'r plant yn cydnabod pwysigrwydd iaith glir, rhugl a diddorol er mwyn cyfathrebu'n effeithiol?
- Ydy'r plant yn ymateb yn briodol ac yn effeithiol i'r hyn maen nhw wedi'i glywed?
- Ydy'r plant yn gofyn ac yn ateb cwestiynau sy'n egluro'u dealltwriaeth ac yn dangos eu bod yn meddwl am y pwnc dan sylw?
- Ydy'r plant yn ymwybodol o ieithoedd eraill? Sut maen nhw'n ymateb iddyn nhw?
- Ydy sgiliau darllen y plant yn datblygu, pa strategaethau maen nhw'n eu defnyddio i'w cynorthwyo?
- Ydy sgiliau ysgrifennu'r plant yn datblygu? Pa gam o ysgrifennu maen nhw wedi'i gyrraedd?

## Datblygiad corfforol

### Echddygol bras

**Sut mae sgiliau cydbwyso'r plant yn datblygu?**

- Pa mor dda mae'r plant yn rheoli eu cyrff pan maen nhw'n rholio, neidio, rhedeg, at ati?
- Sut mae'r plant yn ymateb i wahanol seiniau?
- Ydy'r plant yn dangos bod ganddyn nhw ymwybyddiaeth ofodol?
- Ydy'r plant yn gallu defnyddio'r gofod o'u hamgylch, tu ôl, oddi tano, islaw, drostyn nhw ac odanyn nhw, uwch eu pennau ac i ffwrdd oddi wrthyn nhw? Ydyn nhw'n gallu addasu eu cyflymder a'u cyfeiriad, yn dangos symudiadau cyflym/araf ac uchel/isel neu symudiadau cryf/ysgafn a stopio'n sydyn?
- Ydy cydsymud y plant wedi gwella ac ydy eu rheolaeth dros eu cyrff yn cynyddu wrth iddyn nhw ymgymryd â gweithgareddau gwahanol?
- Sut mae sgiliau cydbwyso'r plant yn datblygu?

### Echddygol manwl

- Pa mor abl yw'r plant o ran trin a thrafod gwrthrychau a defnyddiau? Pa mor gymwys ydyn nhw o ran cwblhau deunyddiau a setiau adeiladu? Ydyn nhw'n dangos cynnydd?
- Pa law sydd orau gan y plentyn? Pa mor dda mae'r plant yn defnyddio deunyddiau gwneud marciau ac offer fel siswrn?
- Pa mor gymwys yw'r plant erbyn hyn o ran cydsymud llaw–llygad, eu sgiliau artistig a'u sgiliau ysgrifennu?


B

## Atodiad 1

Dyblygir y daflen arsylwi a ddefnyddiwyd yn ystod gweithgaredd ‘Dydd a nos’ (astudiaeth achos ar dudalennau 15 ac 16) isod.

| **Observation sheet**<br>**Taflen gofnodi** | **Class**<br>**Dosbarth** | **Staff**<br>**Staff** | **Day/Night**<br>**Dydd/Nos** |
|---|---|---|---|
| **Term**<br>**Tymor** | **Date**<br>**Dyddiad** | **~~INDOOR~~/OUTDOOR**<br>**~~DAN DO~~/YN YR AWYR AGORED** | |
| **Brief outline of activity/Braslun byr o’r gweithgaredd:**<br>*Edrych ar gynnwys bag sgleiniog. Y tu mewn roedd llawer o ddarnau gwahanol o ffabrig sgleiniog o hyd gwahanol, ffyn hud disglair, tiaras plastig, cytlas, car arian, brwsh gwallt, blwch sgleiniog yn cynnwys perlau arian (“Trysor!”), clychau arian, drych a chardiau geiriau fel ‘sgleiniog’, ‘disglair’, ‘disgleirio’, ‘tywynnu’, ‘pefrio’, ‘pefriog’, ac ati.* | | | |
| **Child/Plentyn 1:**<br>Sioned | **Child/Plentyn 2:**<br>William | **Child/Plentyn 3:**<br>Ella | **Child/Plentyn 4:** |
| *Wedi gwisgo, dywedodd wrth Millie mewn llais crand iawn “Rwyt ti’n edrych yn fendigedig cariad”. Mae sgwrs yn dilyn – pawb yn edmygu’i gilydd yn eu clogynnau. Ni chwynodd ar amser cyfnewid a chafodd ei gadael â’r drych yn unig. Aeth ati i ddangos adlewyrchiadau pawb iddyn nhw yn ei drych. (Yn amlwg yn mwynhau gwisgo dillad chwarae – clogyn arian, tiara, menyg a ffon hud.)* | *Yn sefyll nesaf ataf mae’n dweud bod ei glogyn “yn sgleinio arnat ti, mae’n hudol”. Mae’n esgus bod yn farchog gyda chleddyf, tra bod Karl a Rhys yn ei hudo â’r ffyn hud. Ond mae ei glogyn ef yn arfwisg; felly mae wedi’i ddiogelu. (Chwarae rôl ddychmygus, wych a ddatblygodd wrth i amser cyfnewid gyflwyno gwrthrychau newydd i’r gêm.)* | *Ni ddewisodd glogyn, ond cymerodd fag arian a’i lenwi â’r holl eitemau bach y gallai ddod o hyd iddyn nhw. Defnyddiodd ffon hud a rhedodd o amgylch yn ei chwifio gan “ddefnyddio hud”; “Mae gennym bŵer arbennig” meddai wrth ddal cwpan. Mae’n ymddangos ei bod wrth ei bodd yn rhan o dîm bach o dylwyth teg a dewiniaid, yn rhedeg o un pen o’r iard i’r llall drwy’r amser.* | |
| **Next step/Y cam nesaf:** *Mae’n ymddangos bod y math hwn o weithgaredd yn atgyfnerthu pwysigrwydd rhoi rhyddid i archwilio a dychmygu mewn lle mawr, agored. Dychwelodd yr holl blant (a’r ymarferwyr) yn edrych yn fywiog ac yn ‘serennog’. Rhagor os gwelwch yn dda.* | | | |

# Gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltiadau

*Effective Early Learning Project/Programme* (EEL) gan C Pascal a T Bertram (Prifysgol Coleg Caerwrangon)

*Primary Effective Early Learning Project/Programme* (PEEL) gan C Pascal a T Bertram (Prifysgol Coleg Caerwrangon)

(Rhaglenni ar gyfer asesu'r rhan mae plant yn ei chwarae yn eu dysgu yw'r rhain.)

*A Practical Guide to Child Observation and Assessment* gan C Hobart a J Frankel (Nelson Thornes, 2004) ISBN: 978 0748785261

*How to make Observations and Assessments* gan J Harding a L Meldon-Smith (Hodder Arnold, 2008) ISBN: 978 0340647489

*Tracking Significant Achievement in the Early Years* gan V Hutchin (Hodder Murray) ISBN: 978 0340790830

*A Process-Oriented Child Monitoring System* (gwaith ymchmil a ddechreuwyd 1976) gan F Laevers (Cyfres *Addysg trwy brofiadau*, Canolfan Addysg Brofiadol, Gwlad Belg). Rhaglen ar gyfer asesu ac arsylwi ar les plant a'r rhan maen nhw'n ei chwarae yw hon. Gellir gweld adran deunyddiau dysgu Saesneg a deunyddiau perthnasol eraill drwy ymweld â www.cego.be

# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Addysgeg**
Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferwr fel hwyluswr dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgil i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei dilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**
Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**
Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**
Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**
Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu

cyfoedion, a felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferwr/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddynt, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae  pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydynt yn ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Ysgol Gynradd Cadle, Fforestfach, Abertawe

Ysgol Feithrin Parc Caia, Wrecsam

Ysgol Gynradd Holton, Y Barri, Bro Morgannwg

Ysgol Rhiw Bechan, Y Drenewydd, Powys

Ysgol y Gogarth, Llandudno, Conwy.